**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1271
Ein cyf/Our ref LW/01515/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

23 Awst 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach ar 13 Gorffennaf ynglŷn â Deiseb P-06-1271 *Caffael y tir gan Network Rail lle mae ATR884 yn rhedeg fel llwybr caniataol a threfnu gwaith cynnal a chadw*.

Mae fy swyddogion nawr wedi cael cyfle i godi'r mater hwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) a ddywedodd eu bod wedi cael trafodaethau manwl gyda Network Rail ynghylch perchnogaeth o'r tir a rhwymedigaethau at y dyfodol. Gan mai mater i Network Rail a BCBC yw hwn, mae'n dda gen i ddatgan a chroesawu'r ffaith fod y ddau barti yn cydweithio'n adeiladol â'i gilydd i ddatrys y mater.

Mae BCBC wedi cadarnhau eu bod yn deall, mewn egwyddor, bod Network Rail yn hapus i drosglwyddo perchnogaeth o'r tir i BCBC. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar ddatrys materion cyfreithiol manwl.

Yn y cyfamser, mae BCBC yn y broses o gomisiynu ymgynghorwyr i gynnal astudiaethau dichonoldeb yn y flwyddyn ariannol hon gan ddefnyddio cyllideb a ddyrannwyd o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn canfod pa waith sydd ei angen sicrhau bod y llwybr yn bodloni safonau gofynnol, yn ogystal â chostau manwl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae BCBC wedi cynghori eu bod wedi trefnu cyfarfod gyda gwahanol randdeiliaid gan gynnwys Sarah Murphy, AS Pen-y-bont ar Ogwr, aelodau lleol a Sustrans i drafod materion yn ymwneud â'r llwybr.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd